Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Bridgend County Borough Council

Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont, CF31 4WB / Civic Offices, Angel Street, Bridgend, CF31 4WB

*Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Rhowch wybod i ni os mai Cymraeg yw eich dewis iaith.*
*We welcome correspondence in Welsh. Please let us know if your language choice is Welsh.*

**Gwasanaethau Gweithredol a Phartneriaethol / Operational and Partnership Services**
Deialu uniongyrchol / Direct line /: 01656 643148/643147
Gofynnwch am / Ask for: Mrs Julie Ellams

Ein cyf / Our ref:
Eich cyf / Your ref:

**Dyddiad/Date:** Dydd Iau, 25 Ionawr 2018

Annwyl Cynghorydd,

**CYNGOR**

Cynhelir Cyfarfod Cyngor yn Siambr y Cyngor - Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 4WB ar **Dydd Mercher, 31 Ionawr 2018** am **15:00**.

**AGENDA**

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb
   Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb gan Aelodau.

2. Datganiadau o fuddiant
   Derbyn datganiadau o ddiddordeb personol a rhagfarnol (os o gwbl) gan Aelodau / Swyddogion yn unol â darpariaethau'r Cod Ymddygiad Aelodau a fabwysiadwyd gan y Cyngor o 1 Medi 2008.

3. Cymeradwyaeth Cofnodion — 5 - 24
   I dderbyn am gymeradwyaeth y Cofnodion cyfarfod y 20/12/2017

4. I dderbyn cyhoeddiadau oddi wrth:
   (i) Maer (neu'r person sy'n llywyddu)
   (ii) Aelodau'r Cabinet
   (iii) Prif Weithredwr

5. I dderbyn adroddiad yr Arweinydd
   (i) Maer (neu'r person sy'n llywyddu)
   (ii) Aelodau'r Cabinet
   (iii) Prif Weithredwr

6. Y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion - Band B — 25 - 30

7. Ailddatblygu Neuadd y Dref Maesteg — 31 - 36

8. Cais Cynllunio sy'n Gwyro — 37 - 56

9. Adroddiad Gwella Blynyddol 2016-17 - Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr 57 - 92

10. Cynllun Lleihau'r Dreth Gyngor 93 - 100

11. I dderbyn y cwestiynau canlynol i'r Cabinet
**Cwestiwn i'r Aelod Cabinet Cymunedau gan Cynghorydd Tim Thomas**

Yn ystod oes y cynllun ariannol tymor canolig nesaf, beth fydd y Cyngor hwn yn ei wneud i sicrhau bod pobl sy'n byw ag anableddau'n gallu defnyddio'r ffyrdd, y strydoedd a'r priffyrdd yn eu cymunedau'n llawn bob dydd.

**Cwestiwn i'r Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar gan Cynghorydd Altaf Hussain**

Yn ôl Coleg Brenhinol Meddyginiaeth Frys Cymru, mae'r adrannau Damweiniau ac Achosion Brys yn ysbytai Cymru yn debyg i faes y gad. Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi'r bai ar y ffliw, y cynnydd yn nifer y galwadau dros y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd a'r norofeirws. Dywedodd Dr Robin Roop, Is-lywydd RCEM Cymru fod staff unrhyw adran frys yn teimlo'u bod ar faes y gad, bod diogelwch y cleifion yn cael ei beryglu, a bod y sefyllfa'n anniogel, yn ddiurddas ac yn peri gofid i'r cleifion a'u perthnasau. Mae nifer o Fyrddau Iechyd Cymru wedi gorfod gohirio llawdriniaeth oherwydd pwysau'r gaeaf. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg wedi canslo'r rhan fwyaf o lawdriniaethau cyffredin a oedd wedi'u trefnu. Mae'r Ysgrifennydd Iechyd wedi ymddiheuro wrth y cleifion dan sylw.

O ganlyniad bydd rhagor o gleifion, yn enwedig cleifion oedrannus, yn mynd i'r adran Damweiniau ac Achosion Brys oherwydd y ffliw, problemau anadlu neu oherwydd eu bod wedi cael codwm etc. Caiff nifer o'r rhain eu rhyddhau o'r ysbyty'n fuan.

A oes gan y Cyngor adnoddau digonol i roi Gofal Cymdeithasol i'r cleifion hyn, ac a all yr Aelod Cabinet sicrhau'r siambr na fydd gwelyau'n cael eu blocio yn ein hysbytai oherwydd prinder adnoddau gofal cymdeithasol?

12. Rhybydd o Gynnig
**Hysbysiad o Gynnig gan y Cynghorydd T Beedle**

**Eithrio'r rhai sy'n Gadael Gofal rhag talu'r Dreth Gyngor**

O ganlyniad i doriadau i fudd-daliadau oedran gweithio, y cynnydd mewn contractau dim oriau a thai rhent islaw'r safon, nid yw pobl ifanc sy'n agored i niwed yn cael yr un cyfleoedd mewn bywyd ag a gafodd pobl yr un oed yn y gorffennol.

Yn ei hadroddiad, Breuddwydion Cudd, dywedodd Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru, y dylai Llywodraeth Cymru roi blaenoriaeth i bobl ifanc sy'n gadael gofal wrth ystyried sut i wneud y system dreth gyngor yn decach. Dywedodd hefyd fod nifer o'r rhai sy'n gadael gofal yn gorfod byw ar cyn lleied ag £8 y dydd ac roeddent yn gwario mwy ar y dreth gyngor nad dim arall, ac eithrio'u rhent.

Mae'r Cyngor yn nodi :

- bod diwygiadau lles y Llywodraeth yn targedu pobl ifanc mewn ffordd gwbl annheg, fel "Rhwymedigaeth Ieuenctid" y Llywodraeth, a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2017, ac sy'n atal pobl ifanc 18-21 oed rhag hawlio budd-dal tai yn awtomatig. Mae hyn, yn anochel, wedi arwain at gynnydd yn y galw am wasanaethau'r Cyngor

- bod ganddo'r pŵer i eithrio rhai grwpiau penodol rhag talu'r dreth gyngor o dan adran 13A o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992

- bod 1 person ifanc wedi gadael gofal Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr y llynedd (2016/2017) ac wedi dechrau'r cyfnod anodd o adael y system gofal a dechrau byw fel oedolion.

Mae'r Cyngor yn credu:

- y gellir gwneud rhagor i helpu'r rhai sy'n gadael gofal i reoli eu harian yn  ystod y cyfnod hwn, a hynny heb roi gormod o faich ar y trethdalwyr

- y dylid eithrio'r bobl ifanc hyn rhag talu'r dreth gyngor nes byddant yn 25 oed, a hynny er mwyn sicrhau bod y cyfnod rhwng gadael gofal a dechrau byw fel oedolion mor ddidrafferth â phosibl, ac er mwyn lleihau'r siawns iddynt fynd i ddyled wrth iddynt ddechrau rheoli eu harian eu hunain.

Penderfyniad y Cyngor yw:

- Defnyddio'i bwerau i eithrio pawb sy'n gadael gofal ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr rhag talu'r dreth gyngor nes byddant yn 25 oed.

- Gofyn i'r Arweinydd ysgrifennu at y Gweinidog Gofal Cymdeithasol a Phlant i'w annog i eithrio pawb sy'n gadael gofal rhag talu'r dreth gyngor nes byddant yn 25 oed, a hynny ym mhob rhan o'r wlad.

13. <u>Materion Brys</u>
I ystyried unrhyw eitemau o fusnes y, oherwydd amgylchiadau arbennig y cadeirydd o'r farn y dylid eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol â Rhan 4 (pharagraff 4) o'r Rheolau Trefn y Cyngor yn y Cyfansoddiad.

14. <u>Gwahardd y Cyhoedd</u>
Nid oedd yr eitemau canlynol yn cael eu cyhoeddi, gan fod eu bod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 14 a 16 o Ran 4 a Pharagraff 21 o Ran 5, Atodlen 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Cymru) 2007 (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio).

Os, yn dilyn cymhwyso'r prawf budd y cyhoedd yn y Cabinet yn penderfynu yn unol â'r Ddeddf i ystyried yr eitemau hyn yn breifat, bydd y cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod yn ystod ystyriaeth o'r fath.

15. <u>Pecynnau Diswyddo ac Ymddeol yn Gynnar Sy'n Cludo Costau Dros £100,000</u> 101 - 104

Yn ddiffuant
**P A Jolley**
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Gweithredol a Phartneriaethol

**Dosbarthiad:**

| <u>Cynghowrwyr</u> | <u>Cynghorwyr</u> | <u>Cynghorwyr</u> |
|---|---|---|
| S Aspey | A Hussain | JC Spanswick |
| SE Baldwin | RM James | RME Stirman |
| TH Beedle | B Jones | G Thomas |

JPD Blundell
NA Burnett
MC Clarke
N Clarke
RJ Collins
HJ David
P Davies
PA Davies
SK Dendy
DK Edwards
J Gebbie
T Giffard
RM Granville
CA Green
DG Howells

M Jones
MJ Kearn
DRW Lewis
JE Lewis
JR McCarthy
DG Owen
Cyng
RL Penhale-Thomas
AA Pucella
JC Radcliffe
KL Rowlands
B Sedgebeer
RMI Shaw
CE Smith
SG Smith

T Thomas
JH Tildesley MBE
E Venables
SR Vidal
MC Voisey
LM Walters
KJ Watts
CA Webster
DBF White
PJ White
A Williams
AJ Williams
HM Williams
JE Williams
RE Young